Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Bro Helyg**
**Rising Sun Industrial Estate**
**Blaina**
**Blaenau Gwent**
**NP13 3JW**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Jonathan Cooper | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Bro Helyg wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Mawrth 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Bro Helyg oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau darllen, ysgrifennu a rhifedd disgyblion

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o ystod gynyddol o ffurfiau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn fedrus, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i ofalu am fabi. Maent yn ysgrifennu brawddegau synhwyrol trwy ddilyn patrymau syml a chyfarwydd ac yn atalnodi’n gywir gan ddefnyddio priflythrennau, gofynodau ac atalnodau llawn. Mae medrau sillafu llawer o ddisgyblion yn datblygu’n unol â’u hoed a gallu. Mae llawer o’r disgyblion mwy abl yn defnyddio ansoddeiriau, adferfau ac idiomau’n llwyddiannus yn eu gwaith. Mae’r disgyblion hyn yn dechrau defnyddio atalnodi mwy cymhleth yn effeithiol mewn darnau ysgrifennu estynedig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy ac mae cyflwyniad eu gwaith yn dda.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol ac i wahanol bwrpasau yn llwyddiannus. Erbyn hyn, mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft drwy greu erthygl papur newydd yn crynhoi hanes tân yn theatr y Glôb fel rhan o’u gwaith ar William Shakespeare. O ganlyniad, mae safon gwaith ysgrifenedig llawer o ddisgyblion yn datblygu’n briodol. Maent yn defnyddio ystod addas o eirfa ac ymadroddion yn gywir gan sillafu’r rhan fwyaf o eiriau cyfarwydd yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio berfau cryno a threigladau yn addas yn eu gwaith Cymraeg. Maent yn cychwyn ailddrafftio’u gwaith yn briodol gan ddilyn adborth athrawon. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu’n estynedig wedi datblygu’n llawn hyd yn hyn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni i safon sy’n cyfateb i’w hoed a’u gallu.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu medrau darllen. Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol er mwyn datblygu’r medrau hyn, gan gynnwys sesiynau ffonolegol a darllen o dan arweiniad. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon ac yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei ddarllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn medru disgrifio nodweddion llyfrau’n llwyddiannus gan gynnwys awdur, teitl a chlawr. Maent yn medru gwahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen ac yn gallu mynegi barn yn fedrus am wahanol gymeriadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu’u medrau darllen mewn amrywiaeth o ffurfiau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn medru darllen yn eithaf rhugl ac yn datblygu medrau uwch darllen yn llwyddiannus.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus trwy ystod o weithgareddau perthnasol. Maent yn defnyddio ffeithiau rhif yn fedrus i ddatrys problemau rhifedd yn eu gweithgareddau. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion mwy abl yn medru datrys problemau aml-gam yn fedrus, er enghraifft wrth adio cyfanswm prisiau gwrthrychau ac yna rhoi newid o ddeg punt. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn datblygu strategaethau perthnasol a'u defnyddio i ddatrys problemau bywyd go iawn, er enghraifft i gyfrifo gostyngiad mewn prisiau teganau. Fodd bynnag, mae medrau sylfaenol ychydig o ddisgyblion yn ansicr ar adegau, sy'n amharu ar eu gallu i gyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig. Ym Mlwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus iawn er mwyn datrys problemau heriol, er enghraifft wrth reoli cyllid ar gyfer prynu dodrefn ar gyfer tŷ newydd ac i gyfrifo biliau dŵr a thrydan.

**Argymhelliad 2: Cynyddu cyfraddau presenoldeb y disgyblion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan yr ysgol ystod amrywiol o ymyraethau effeithiol er mwyn annog rhieni i adnabod pwysigrwydd anfon eu plant i'r ysgol yn gyson ac yn brydlon. Mae'r polisi presenoldeb yn ddefnyddiol, ac yn egluro disgwyliadau'r ysgol ynglŷn â rhoi gwybod am unrhyw absenoldeb yn glir. Mae'r neges bwysig hon yn cael sylw rheolaidd yng nghylchlythyrau'r ysgol at rieni.

Mae'r ysgol yn cysylltu â rhieni mewn unrhyw achosion ble nad oes eglurhad am absenoldeb. Mae athrawon yn adnabod unrhyw ddisgyblion ble mae eu habsenoldeb yn peri gofid iddynt yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos iawn gyda swyddog lles yr awdurdod lleol i fonitro patrymau absenoldeb. Gwneir defnydd effeithiol o'r wybodaeth er mwyn monitro a chefnogi'r disgyblion sydd yn absennol yn barhaus. Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau'r awdurdod addysg ac yn anfon llythyrau at rieni os yw presenoldeb eu plant yn disgyn o dan 96%. Mae arweinwyr yn cyfarfod â rhieni lle mae canran presenoldeb disgyblion yn achosi pryder ac yn dosbarthu llythyron rhybudd os nad oes gwelliant. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol ac, o ganlyniad, yn cael effaith bositif ar bresenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer codi cyfraddau presenoldeb carfan o ddisgyblion penodol sydd yn absennol am gyfnodau estynedig yn llwyddiannus. Mae gan un o'r llywodraethwyr drosolwg buddiol o'r gweithdrefnau hybu presenoldeb ac mae'n herio'r ysgol yn effeithiol drwy gyfarfodydd rheolaidd.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi gwella o 94.7% yn 2015 i 95.4% ar ddiwedd tymor yr haf 2016. Mae hyn yn symud yr ysgol o'r 25% isaf i'r 50% uwch o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae arweinwyr yn gwerthuso'r gwaith o wella a chynnal presenoldeb yn rheolaidd. Mae targedau'r ysgol ar gyfer cynyddu presenoldeb disgyblion yn heriol er mwyn sicrhau eu bod yn cymharu'n well ag ysgolion tebyg ac yn fwy ffafriol na'r ddwy flynedd ddiwethaf.

**Argymhelliad 3: Gwella'r cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol medrau allweddol disgyblion ar draws y cwricwlwm**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi datblygu cynlluniau gwaith i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau allweddol yn gydlynus ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd yn effeithiol ac yn cael effaith bositif ar yr ystod o brofiadau a ffurfiau ysgrifennu i'r disgyblion. Er enghraifft, mae'r cynllun gwaith sillafu ac atalnodi yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau sillafu llawer o ddisgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ailymweld â gwahanol fathau o ysgrifennu yn gyson er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd ymhellach.

Erbyn hyn, mae'r ysgol wedi dosrannu cynnwys y fframwaith rhifedd fesul thema yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ac i adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cymhwyso'u medrau rhifedd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm yn briodol, er enghraifft wrth weithio gyda chyllid i drefnu tocynnau i wylio cynhyrchiad drama.

Mae gan yr ysgol gynlluniau addas sy'n sicrhau cyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn gydlynus ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'r medr o gyfathrebu drwy ddefnyddio TGCh yn briodol, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth a chreu cyflwyniadau. Yn ddiweddar, mae disgyblion wedi cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau trin data yng nghyfnod allweddol 2, er enghraifft wrth greu taenlen i gymharu nodweddion peiriannau sgrech o gwmpas y wlad. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i alluogi ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ddatblygu eu rôl fel arweinwyr digidol. Mae'r disgyblion hyn yn cynnal gweithdai gyda disgyblion iau'r Cyfnod Sylfaen ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau.

**Argymhelliad 4: Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei herio'n briodol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r uwch dîm rheoli wedi sefydlu rhaglen rymus er mwyn monitro ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Maent wedi arsylwi pob un o'r athrawon yn addysgu ac wedi craffu ar lyfrau. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r gwaith monitro yn fanwl ac, ar y cyfan, mae arweinwyr yn rhoi sylw priodol i effaith yr addysgu ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r adroddiadau ysgrifenedig yn cynnwys sylw addas i agweddau pwysig sydd angen eu gwella. Mae trefniadau effeithiol wedi eu sefydlu er mwyn gwella'r agweddau hyn, sy'n cynnwys arsylwi arfer dda o fewn yr ysgol ac mewn ysgolion cynradd eraill. Mae hyn wedi arwain at well cysondeb ymysg athrawon mewn rhai meysydd penodol, er enghraifft yn y marcio ac ymateb i waith disgyblion. Mae'r ysgol yn dechrau manteisio ar arbenigeddau athrawon yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt gyfnewid i addysgu rhifedd a llythrennedd.

Mae rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn darparu gwaith ysgogol sydd yn cynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn holi'n effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau ychydig iawn o athrawon bob tro'n ddigon uchel i herio ac i ddiwallu anghenion disgyblion o bob gallu.

**Argymhelliad 5: Gwella prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion gan gynnwys trefniadau i helpu disgyblion wybod sut i wella'u gwaith**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r arweinydd asesu yn monitro defnydd yr athrawon o ddeilliannau asesu yn ofalus. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf yr athrawon ddealltwriaeth werthfawr o gyrhaeddiad ac anghenion unigolion. Mae athrawon yn defnyddio system electronig a phroffiliau dosbarth i olrhain cynnydd disgyblion ar draws holl bynciau'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o asesiadau yn effeithiol i adnabod grwpiau penodol ac i gynllunio gweithgareddau sy'n herio disgyblion o bob gallu. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn cynnig adborth cynhaliol ar lafar yn ystod gwersi ac yn defnyddio canmoliaeth yn gyson i annog disgyblion llai hyderus. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol er mwyn gwirio os yw'r disgyblion yn deall gofynion y dasg. Maent yn rhannu nodau dysgu ystyrlon gyda disgyblion ac yn darparu cyfleoedd priodol iddynt drafod a gwerthuso'u gwaith.

Mae bron bob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn unol â chanllawiau a pholisi marcio'r ysgol. Yn gyffredinol, mae sylwadau ysgrifenedig rhan fwyaf o'r athrawon yn galluogi'r disgyblion i wybod pa mor dda maent yn ei wneud, a'r hyn sydd angen iddynt ei wella. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymateb i'r sylwadau drwy wella ac ailddrafftio eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau yn ddigon miniog bob tro er mwyn galluogi'r disgyblion i wybod beth i'w wneud er mwyn gwella safon eu gwaith.

Mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau llwyddiannus ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus i gryfhau eu dealltwriaeth o'r safonau a gyflawnir gan bob disgybl.

**Argymhelliad 6: Cryfhau gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol gan sicrhau bod rôl pob aelod staff wedi ei diffinio'n glir a bod pawb yn atebol ac yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau ffocws ar godi safonau**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinyddiaeth strategol yr ysgol wedi datblygu i fod yn fwy effeithiol drwy gryfhau rôl yr uwch dîm rheoli a thrwy rannu cyfrifoldebau'n

llwyddiannus. Yn dilyn penodiadau parhaol i'r tîm arwain, gan gynnwys dirprwy bennaeth ac arweinydd llythrennedd a chyfnod allweddol 2, mae strwythur arweinyddiaeth yr ysgol yn sefydlog. Mae'r trefniadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bron bob un agwedd o addysgu a safonau. Er enghraifft, mae defnydd cyson o ddulliau asesu ar gyfer dysgu yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o'r disgwyliadau ohonynt a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Yn ogystal, mae'r uwch dîm rheoli wedi sicrhau ethos o gydweithio effeithiol ymysg y staff gyda ffocws clir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Er enghraifft, mae trefniadau buddiol fel addysgu ar y cyd ac arsylwi ar arfer dda o fewn yr ysgol yn sicrhau cysondeb a gwelliannau yn yr addysgu.

Mae'r uwch dîm rheoli yn defnyddio'r cynllun ôl-arolygiad fel arf i osod cyfeiriad strategol synhwyrol i'r ysgol. Mae gan yr amserlen hunanarfarnu ffocws clir ar flaenoriaethau'r cynllun, ond mae hefyd yn ddigon hyblyg i ymateb yn dda i unrhyw feysydd pwysig eraill sydd angen gwelliant wrth werthuso gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr yn mesur cynnydd yn erbyn meini prawf cytunedig ac mae deilliannau'r gwaith monitro yn arwain at gynllunio mwy strategol ar gyfer gwelliant.

Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli yn glir ac mae'r arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd yn dda. Maent yn rhannu deilliannau hunanarfarnu gyda gweddill y staff a rhanddeiliaid eraill yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn dechrau datblygu medrau arweinyddiaeth pob aelod o staff yn llwyddiannus. Drwy weithdrefnau fel monitro ar y cyd gydag aelodau o'r uwch dîm reoli, maent yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o safonau yn eu pwnc ac yn cynnig arweiniad gwerthfawr i staff eraill.

Mae cyfarfodydd staff yn rheolaidd a strwythuredig gan ganolbwyntio'n effeithiol ar godi safonau. Sefydlwyd gweithdrefnau cyfathrebu clir gyda'r holl staff, ac mae ethos o gydweithio yn amlwg ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drylwyr i sicrhau bod athrawon yn atebol am safonau disgyblion ac i herio tanberfformiad yn llwyddiannus. Defnyddir rhaglenni cymorth gwerthfawr i gefnogi staff sydd angen cefnogaeth, lle'n briodol. Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau rheoli perfformiad yn effeithiol gyda staff ategol er mwyn eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.

**Argymhelliad 7: Sefydlu strwythur effeithiol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi sefydlu amserlen hunanarfarnu fanwl sy'n amlinellu gweithgareddau monitro ar gyfer bob tymor. Mae'n nodi'n glir gyfrifoldebau arweinwyr, terfynau amser a threfniadau effeithiol ar gyfer gwerthuso cynnydd. Mae arweinwyr yn sicrhau mewnbwn a pherchnogaeth y staff yn llwyddiannus ac maent yn addasu'r amserlen yn ôl yr angen er mwyn ymateb i ddeilliannau monitro. Mae hyn yn sicrhau bod gweithgareddau monitro yn benodol ar gyfer mynd i'r afael â materion sydd angen eu gwella.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu sy'n seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys dadansoddiadau data, arsylwi ar wersi, craffu ar lyfrau a chynlluniau ac wrth siarad â dysgwyr. Maent yn gwneud defnydd priodol o ganllawiau a fframweithiau'r awdurdod lleol er mwyn monitro safon yr addysgu a dysgu. Mae bob un aelod o'r uwch dîm rheoli yn rhan o'r broses fonitro ac yn adrodd i'r staff am y wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau monitro yn arfarnu deilliannau disgyblion a'r ddarpariaeth yn addas. Er hyn, nid yw'r argymhellion yn yr adroddiadau bob tro'n ffocysu'n ddigon trwyadl ar safonau disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr yn gallu mesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn ddigon effeithiol.

Mae arweinwyr yn ystyried barn rhanddeiliaid yn y broses hunanarfarnu yn fuddiol. Maent yn cwrdd â grŵp ffocws o rieni yn rheolaidd er mwyn canfod eu barn ac i drafod materion gwella ysgol. Mae arweinwyr yn ymateb yn dda i'r adborth. Er enghraifft, maent wedi gwella trefniadau cyfathrebu gyda rhieni drwy'r defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i'w hysbysebu am ddigwyddiadau. Mae arweinwyr yn cynnwys barn staff a llais y dysgwyr yn effeithiol yn y broses hunanarfarnu. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi addasu'r ffordd y maent yn cofnodi targedau unigol ar ôl gwrando ar farn disgyblion. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u targedau a beth sydd ei angen arnynt i wella'u gwaith.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, er yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn rhoi darlun cyfredol o sefyllfa bresennol yr ysgol. Mae'r gweithgareddau hunanarfarnu yn bwydo'r adroddiad hwn yn briodol. Yn ogystal ag argymhellion o'r arolygiad craidd, mae arweinwyr yn adnabod meysydd ychwanegol perthnasol ar gyfer gwelliant. Maent yn dechrau cynnwys y rhain mewn cynllun datblygu ysgol briodol er mwyn parhau i arwain gwelliannau.

**Argymhelliad 8: Datblygu rôl y llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu er mwyn eu galluogi i herio'r ysgol yn briodol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r corff llywodraethol yn datblygu ei rôl yn effeithiol. Mae'r amserlen cyfarfodydd yn fanwl ac yn sicrhau bod llywodraethwyr yn cwrdd yn rheolaidd. Maent yn derbyn adroddiadau gwerthfawr gan y pennaeth, cyflwyniadau gan aelodau'r staff ac adroddiadau o bwyllgorau cwricwlaidd. Mae rhan fwyaf o'r llywodraethwyr wedi cael hyfforddiant buddiol, gan gynnwys hyfforddiant ynglŷn â dehongli data a materion diogelu disgyblion. Mae llywodraethwyr newydd yn cael eu hanwytho i'r rôl yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau newydd yn gyflym.

Mae'r cadeirydd yn adnabod yr ysgol yn arbennig o dda. Mae'n ymweld â'r ysgol yn gyson ac mae ganddi ddealltwriaeth effeithiol iawn o flaenoriaethau'r ysgol. O dan ei harweiniad medrus, mae'r corff llywodraethol yn datblygu ei allu i herio'r ysgol yn llwyddiannus. Mae'r llywodraethwyr wedi cwblhau adroddiad hunanarfarnu ac yn defnyddio deilliannau'r broses hon yn addas er mwyn gwella'u rôl.

Mae llawer o lywodraethwyr yn ymgymryd â gweithgareddau monitro, gan gynnwys teithiau cerdded o amgylch y dosbarthiadau. Maent yn ysgrifennu adroddiadau cynhwysfawr yn dilyn ymweliadau ac yn adrodd yn ôl ar eu darganfyddiadau mewn cyfarfodydd. Yn gyffredinol, mae’r adroddiadau hyn yn arfarnol ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y llywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a blaenoriaethau gwella. Mae hyn yn golygu eu bod nhw’n deall yn dda y cynnydd y mae’r ysgol yn ei wneud yn erbyn argymhellion yr arolygiad.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai’r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi’i wneud, a pharhau i fynd i’r afael â’r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.